# Cofnodion – Y Pwyllgor Busnes

Lleoliad:

**Ystafell Gynhadledd 4B – Tŷ Hywel**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 3 Chwefror 2026

Amser: 09.05 – 09.48

# Preifat, Hybrid

## Yn bresennol

| Categori | Enwau |
|---|---|
| Aelodau'r Pwyllgor: | Elin Jones AS, Llywydd (Cadeirydd)<br>Paul Davies AS<br>Heledd Fychan MS<br>Jane Hutt AS |
| Staff y Pwyllgor: | Graeme Francis (Clerc)<br>Steffan Lewis (Dirprwy Glerc) |
| Eraill yn bresennol | David Rees AS, Y Dirprwy Lywydd<br>Manon Antoniazzi, Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd<br>Bethan Davies, Pennaeth Gwasanaeth y Siambr a Phwyllgorau<br>Marc Wyn Jones, Pennaeth Pwyllgorau Polisi a Deddfwriaeth<br>Helen Carey, Llywodraeth Cymru |

## 1 Cyflwyniadau, ymddiheuriadau a dirprwyon

Croesawodd y Llywydd yr Aelodau i'r cyfarfod. Cafwyd ymddiheuriadau gan Jane Dodds AS.

# 2 Cofnodion y cyfarfod blaenorol

# 3 Trefn Busnes

## 3.1 Busnes yr wythnos hon

Nododd y Pwyllgor Busnes y newidiadau a ganlyn:

Dydd Mawrth

- ~~Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Lles Plant ac Ysgolion~~ (~~30~~ 0 munud) – *wedi'i ohirio tan 3 Mawrth*
- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal fel yr eitem olaf o fusnes
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 7.20pm.

Dydd Mercher

- ~~Dadl Fer: Julie Morgan AS (Gogledd Caerdydd)~~ (~~30~~ 0 munud) - *wedi'i ohirio tan 11 Chwefror*

- Caiff y Cyfnod Pleidleisio ei gynnal cyn y Ddadl Fer.
- Nid yw'r Cyfarfod Llawn yn debygol o fynd y tu hwnt i 6.00pm.

Mae trafodion Cyfnod 3 y Bil Digartrefedd a Dyrannu Tai Cymdeithasol (Cymru) wedi'u hamserlennu ar gyfer tair awr. Mae 94 o welliannau mewn 13 o grwpiau. Nododd y Pwyllgor Busnes y bydd egwyl o 10 munud yn digwydd cyn dechrau Cyfnod 3.

## 3.2 Amserlen busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf

Rhoddodd y Trefnydd wybod i'r Rheolwyr Busnes am y newidiadau canlynol i amserlen Busnes y Llywodraeth ar gyfer y tair wythnos nesaf:

**Dydd Mawrth 10 Chwefror 2026**

- Y penderfyniad ariannol ynghylch Bil Senedd Cymru (Atebolrwydd Aelodau ac Etholiadau) (15 munud)

**Dydd Mawrth 24 Chwefror 2026**

- Rheoliadau Deddf Diogelwch Adeiladau 2022 (Diwygiadau Canlyniadol) (Cymru) 2026 (15 munud)
- Rheoliadau Gwasanaethau Mabwysiadu Rheoleiddiedig (Darparwyr Gwasanaethau ac Unigolion Cyfrifol) a Gwasanaethau Cymorth Mabwysiadu (Awdurdodau Lleol) (Diwygiadau Amrywiol) (Cymru) 2026 (10 munud)
- Rheoliadau Addysg Uwch (Terfynau Ffioedd) (Cymru) 2026 (10 munud)
- Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol: Y Bil Cynlluniau Pensiwn (15 munud)

### 3.3 Amserlen busnes y Senedd ar gyfer y tair wythnos nesaf

Cytunodd y Rheolwyr Busnes ar y newidiadau canlynol i amserlen Busnes y Senedd am y tair wythnos nesaf:

**Dydd Mercher 11 Chwefror 2026 –**

- Cynnig o dan Reol Sefydlog 26C.40 mewn perthynas â'r Bil Cynllunio (Cymru) a'r Bil Cynllunio (Darpariaethau Canlyniadol) (Cymru) (15 munud)
- Dadl Fer: Julie Morgan AS (Gogledd Caerdydd) (30 munud) – *wedi'i ohirio o 4 Chwefror*

**Dydd Mercher 4 Mawrth 2026 –**

- Enwebiad o dan Reol Sefydlog 10.5 ar gyfer penodi Archwilydd Cyffredinol Cymru (5 munud)
- Amser a neilltuwyd i Blaid Cymru (60 munud)
- Dadl Fer: Rhianon Passmore AS (Islwyn) (30 munud)
- Cyfnod 3 y Bil Iaith Arwyddion Prydain (Cymru) (120 munud)

**Cais gan Adam Price AS am ddadl ar gynnig o dan Reol Sefydlog 26C.40 –**

Ystyriodd y Pwyllgor Busnes ohebiaeth a ddaeth i law gan Adam Price AS yn gofyn am amser ar gyfer dadl ar gynnig y mae wedi'i gyflwyno o dan Reol Sefydlog 26C.40 yn cynnig bod y Senedd yn ystyried gwelliannau i'r Bil Cynllunio (Cymru) a'r Bil Cynllunio (Darpariaethau Canlyniadol) (Cymru) yn ystod Ystyriaeth Fanwl y Senedd. Cytunodd y Pwyllgor Busnes i drefnu amser yn y Cyfarfod Llawn ddydd Mercher 11 Chwefror i'r cynnig gael ei drafod.

### 3.4 Cynigion Deddfwriaethol gan Aelodau: Dewis Cynnig ar gyfer Dadl

Ystyriodd y Pwyllgor Busnes y cynigion a chytunwyd i amserlennu'r cynnig canlynol i'w drafod ar 11 Chwefror:

**Sioned Williams**

**NNDM9024**

Cynnig bod y Senedd:

1. Yn nodi cynnig ar gyfer Bil Hawliau Dynol (Cymru).

2. Yn nodi mai diben y Bil hwn fyddai:

a) gwneud hawliau dynol rhyngwladol dethol yn rhan o gyfraith Cymru fel eu bod yn rhwymol i Weinidogion ac awdurdodau cyhoeddus Cymru wrth arfer swyddogaethau datganoledig a gellir eu gorfodi gan lys neu dribiwnlys.

b) ei gwneud yn haws i bobl yng Nghymru ddeall a mynnu eu hawliau, a darparu llwybrau cliriach i gael mynediad at gyfiawnder pan nad yw eu hawliau yn cael eu cynnal gan gyrff cyhoeddus; ac

c) gwella monitro ac atebolrwydd, gan sicrhau y gellir dal cyrff cyhoeddus a sefydliadau eraill i gyfrif pan fyddant yn methu â chynnal yr hawliau dynol hyn.

## 4 Deddfwriaeth

### 4.1 Llythyr gan y Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad at Ysgrifennydd y Cabinet dros Gyfiawnder Cymdeithasol, y Trefnydd a'r Prif Chwip mewn perthynas â'r Ddadl ar y Cynnig Cydsyniad Deddfwriaethol ar y Bil Oedolion Terfynol Sâl (Diwedd Oes)

Nododd y Pwyllgor Busnes y llythyr. Cadarnhaodd y Trefnydd ei bod hi ac Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gofal Cymdeithasol wedi ystyried y cais ac y byddai'n ymateb i'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i ddweud bod y Llywodraeth yn bwriadu bwrw ymlaen â'r ddadl ar 24 Chwefror fel y trefnwyd. Nododd y Trefnydd y byddai hyn yn caniatáu amser ar gyfer dadl bellach cyn diwedd y Senedd bresennol pe bai angen un i ystyried unrhyw Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol atodol pellach ar y Bil.

### 4.2 Diweddariad ar Femoranda Cydsyniad Deddfwriaethol

Trafododd y Pwyllgor Busnes ddiweddariad gan y Trefnydd a chytunodd ar y canlynol:

- cyfeirio'r Memorandwm Atodol (Rhif 3) ar y Bil Swyddi Cyhoeddus (Atebolrwydd) at y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus a'r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a'r Cyfansoddiad i graffu arno, gyda dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad ar 20 Mawrth 2026.
- cyfeirio'r Memorandwm ar Fil y Lluoedd Arfog at y Pwyllgor Cydraddoldeb a Chyfiawnder Cymdeithasol a’r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad i graffu arno, gyda dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad ar 20 Mawrth 2026;
- cyfeirio'r Memorandwm ar y Bil Hyfforddiant Meddygol (Blaenoriaethu) at y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol a’r Pwyllgor Deddfwriaeth, Cyfiawnder a’r Cyfansoddiad i graffu arno, gyda dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad ar 10 Chwefror 2026; ac

- ymestyn y dyddiad cau ar gyfer adrodd ar y Bil Lles Plant ac Ysgolion i 2 Mawrth 2026.

## 5 Pwyllgorau

### 5.1 Llythyr gan y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus a Gweinyddiaeth Gyhoeddus mewn perthynas â chais am ddadl yn y Cyfarfod Llawn ar ymateb Llywodraeth Cymru i Fodiwl 1 Ymchwiliad COVID-19 y DU

Ystyriodd y Pwyllgor Busnes y cais a chytunodd i neilltuo amser yn y Cyfarfod Llawn ar gyfer dadl ar yr adroddiad ar 18 Mawrth 2026.

## 6 Gwaith Gweithdrefnol

### 6.1 Dull y Senedd o Ystyried adroddiadau ar newid y Rheolau Sefydlog

Cytunodd y Pwyllgor Busnes ar ei ddull o gynnig newidiadau i'r Rheolau Sefydlog i'r Senedd cyn ei diddymu, gyda chyfres gyntaf o adroddiadau i'w hamserlennu ar gyfer eu trafod yn y Cyfarfod Llawn ar 25 Chwefror 2026 ac ail gyfres ar 11 Mawrth 2026.

### 6.2 Llythyr gan Fwrdd yr Adolygiad o Senedd sy’n Ystyriol o Deuluoedd a Chynhwysol mewn perthynas ag argymhellion sydd â'r nod o gryfhau Rheolau Sefydlog y Senedd

Nododd y Pwyllgor Busnes y llythyr a'r argymhellion cychwynnol yn deillio o'r Adolygiad o Senedd sy’n Ystyriol o Deuluoedd a Chynhwysol. Cytunodd y Rheolwyr Busnes y bydd yn bwysig rhoi ystyriaeth fanwl i'r argymhellion a fydd yn deillio o'r Adolygiad a byddant yn ystyried ymateb unwaith y bydd yr adroddiad terfynol ar gael. O ystyried yr amser cyfyngedig iawn sy'n weddill yn nhymor y Senedd hon, nododd y Pwyllgor Busnes ei bod yn debygol y bydd yn cynnwys y potensial ar gyfer ystyriaeth weithdrefnol o'r materion hyn fel rhan o'i adroddiad gwaddol.

Dywedodd y Llywydd y bydd hi'n cwrdd yr wythnos hon â Chadeirydd y Bwrdd Adolygiad o Senedd sy’n Ystyriol o Deuluoedd a Chynhwysol.

### 6.3 Llythyr gan y Pwyllgor Deisebau mewn perthynas ag ystyried newidiadau i Reol Sefydlog 23

Ystyriodd y Pwyllgor Busnes y llythyr a chynigion am newidiadau i'r Rheolau Sefydlog gan y Pwyllgor Deisebau. Cytunodd y Rheolwyr Busnes i drafod gyda'u grwpiau cyn dychwelyd i ystyried y newidiadau arfaethedig ymhellach yn ei gyfarfod nesaf.

### 6.4 Llythyr gan Fforwm y Cadeiryddion mewn perthynas â ffurfioli Fforwm y Cadeiryddion

Nododd y Pwyllgor Busnes y llythyr a chytunodd i beidio â chynnig unrhyw newidiadau i'r Rheolau Sefydlog ynghylch Fforwm y Cadeiryddion yn y Senedd bresennol.

Cytunodd y Pwyllgor i gynnwys y potensial ar gyfer ystyriaeth weithdrefnol o'r mater hwn fel rhan o'i adroddiad gwaddol cyn y Seithfed Senedd.

### 6.5 Pleidleisio o bell yn y Cyfarfod Llawn

Ystyriodd y Pwyllgor Busnes drefniadau ar gyfer pleidleisio o bell yn y Cyfarfod Llawn a sawl opsiwn ar gyfer newidiadau posibl o ran arfer.

Nododd Paul Davies fod grŵp y Ceidwadwyr Cymreig o blaid terfynu’r trefniadau ar gyfer cyfranogiad a phleidleisio o bell. Cytunodd y Rheolwyr Busnes i drafod gyda'u grwpiau cyn dychwelyd at y mater hwn mewn cyfarfod yn y dyfodol.